Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Penysarn
**Penysarn**
**Amlwch**
**Ynys Môn**
**LL69 9AZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012**

**gan**

**Mervyn Lloyd Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Penysarn rhyw ddwy filltir o Amlwch ac yn gwasanaethu'r pentref lleol a'r ardal gyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod addysg Ynys Môn.

Yn ystod yr arolygiad roedd 96 o ddisgyblion ar y gofrestr yr ysgol rhwng 3 ac 11 oed. Maent wedi eu trefnu mewn pedwar dosbarth, dau yn y Cyfnod Sylfaen a dau yng nghyfnod allweddol 2. Derbynnir plant i'r ysgol yn rhan amser ar ddechrau mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae'r disgyblion o'r ystod gallu lawn. Tua hanner y disgyblion sydd â'r Gymraeg yn brif iaith y cartref iddynt. Disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal y daw'r disgyblion ohoni fel un sydd heb fod yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd.

Mae'r ganran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn rhad ac am ddim, sef 20%, yn uwch na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol.

Mae bron i 23% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2006. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Medi 2005.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Penysarn yn 2011-12 yn golygu mai'r gyllideb yw £3414 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £6563 a'r lleiafswm yw £2636. Mae ysgol Gynradd Penysarn yn safle 29ain o'r 50 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf plant y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cyson ac amlwg;
- lles disgyblion yn dda;
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol, ble mae perthnasau yn gadarnhaol ac fe werthfawrogir disgyblion; a
- partneriaethau gyda'r gymuned yn dda.

Fodd bynnag:

- nid yw rhai disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf galluog yng nghyfnod allweddol 2, yn gwneud cynnydd cystal ag y dylent;
- nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd wedi'i gynllunio'n ddigon gofalus; a
- lleiafrif o'r disgyblion sydd yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i wella ei gwaith.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan yr ysgol ragolygon gwella digonol oherwydd:

- ymroddiad aelodau'r staff i'r disgyblion dan eu gofal;
- bod staff a'r llywodraethwyr yn dechrau defnyddio data perfformiad yn fwy effeithiol; a
- bod yr ysgol yn gweithio'n effeithiol fel cymuned dysgu.

Serch hynny:

- nid yw elfennau o'r broses hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer codi safonau yn ddigon grymus.

## Argymhellion

Mae angen i'r ysgol:

A1 sicrhau fod mwy o ddisgyblion yn cyflawni'r lefelau uwch ar ddiwedd y cyfnodau allweddol;

A2 gwella safonau ysgrifennu yn y Gymraeg a’r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2;

A3 sicrhau bod cynllunio’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn cwrdd ag anghenion pob disgybl;

A4 gwella dealltwriaeth y corff llywodraethol o dueddiadau data a chymariaethau ag ysgolion tebyg er mwyn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfri yn well; a

A5 sicrhau bod prosesau hunan arfarnu a monitro yn rhoi ffocws penodol ar ddeilliannau disgyblion.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Mi fydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae canlyniadau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ar y lefel disgwyliedig yn dangos bod cyflawniad disgyblion saith oed yn cymharu'n dda â disgyblion mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru. Mae canlyniadau disgyblion unarddeg oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel disgwyliedig yn is na disgyblion mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru. Heblaw am y Gymraeg yng nghyfnod allweddol un, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch dros y pedair blynedd diwethaf hefyd yn is nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru.

Yn gyffredinol mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn. Mae'r gwahaniaeth hwn yng nghyfnod allweddol dau yn uwch na mewn ysgolion tebyg. Mae disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau a osodwyd iddynt. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion ac arsylwadau dosbarth yn dangos nad yw'r disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni cystal ag y dylent.

Yn y Cyfnod Sylfaen, fe wna y rhan fwyaf o'r plant gynnydd cyson ac amlwg ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn datblygu'n dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Serch hynny, mae rhai disgyblion yn llai sicr wrth drafod gwaith blaenorol ac nid yw ei gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn ddigon cadarn bob amser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau meddwl mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn cymhwyso'r rhain yn briodol i sefyllfaoedd newydd.

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes a diwylliant lleol a Chymru yn dda.

Mae safonau a'r cynnydd a wna llawer y disgyblion ar draws yr ysgol yn y medrau allweddol siarad a gwrando yn dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn hyderus i gwestiynau'r athrawes. Mae cynnydd amlwg a phriodol i'w weld yn eu medrau darllen ac ysgrifennu ac maent yn cyrraedd safonau sydd yn unol â'u hoedran a'u gallu. Mae eu hyder yn datblygu'n gyflym wrth iddynt ddewis eu gweithgareddau dysgu ac maent yn ymroi'n frwdfrydig iddynt.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn canolbwyntio'n dda. Maent yn siarad yn hyderus yn y gwersi ac yn cyfrannu'n synhwyrol i drafodaethau grŵp. Erbyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn Saesneg a Chymraeg wedi datblygu'n dda.

Mae safonau darllen y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn amrywio. Mae'r haen uchaf eu gallu yn darllen gyda rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg, yn newid goslef yn effeithiol gan ddangos aeddfedrwydd amlwg. Maent yn trafod agweddau o lyfr ac yn dangos dealltwriaeth o syniadau, digwyddiadau a'u hoff gymeriadau yn hyderus. Nid yw disgyblion canolig ac is eu gallu yn llith ddarllen dros destun yn gyflym. Serch hynny, maent yn defnyddio strategaethau darllen yn llwyddiannus i gywain ystyr. Maent yn ansicr wrth drafod cynnwys llyfr ac wrth son am awduron adnabyddus.

Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu at bwrpasau gwahanol ac mewn arddulliau gwahanol gyda medrusrwydd cynyddol. Mae sgiliau atalnodi a sillafu'r mwyafrif yn datblygu'n briodol ond nid oes gan rai ohonynt fedrau sillafu a gramadeg priodol.

Nid yw eu medrau ysgrifennu estynedig a chreadigol yn y ddwy iaith wedi datblygu'n ddigonol ar draws y cwricwlwm. Ychydig o'r disgyblion sy'n ysgrifennu darnau hir o waith.

Nid yw llawysgrifen a chyflwyniad gwaith yn llyfrau lleiafrif y disgyblion yn dda.

**Lles: Da**

Mae medrau personol, cymdeithasol a medrau bywyd y disgyblion yn datblygu'n dda ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd a gwaith tu allan i'r ysgol.

Mae bron bob plentyn yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r angen i ymgymryd ag ymarfer corff ac i fwyta bwyd iach.

Mae bron pob un disgybl yn gwrtais ac yn parchu ei gilydd, fe welir hyn yn y cymorth a roddant i'r naill a'r llall. Mae rhan fwyaf yn dangos diddordeb, cymhelliant a balchder wrth ymgymryd â'u gweithgareddau.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Mae pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol gan ddweud mai ychydig o fwlio neu aflonyddu sy'n digwydd.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn weithredol wrth wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn dda. Maent wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau megis, amgylchedd yr ysgol, adnoddau a phenderfynu pa elusennau i'w cefnogi.

Lleiafrif o'r disgyblion sydd yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt ei wneud i wella ei gwaith. Ansicr ydynt wrth drafod eu targedau.

Mae'r cyfraddau presenoldeb o bron 95%, yn dda ac yn uwch nag ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau priodol sy'n ennyn diddordeb y plant, ond nid yw bob amser yn ymateb yn llawn i'r gwahanol alluoedd.

Mae'r cynlluniau gwaith yn ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol a rhoddir sylw addas i ddatblygiad y medrau. Darperir profiadau diddorol i hyrwyddo'r dysgu yn y Cyfnod Sylfaen mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae natur thematig y ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 a'i berthnasedd i gyd-destun y disgyblion yn gyrru'r dysgu. Fodd bynnag, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn cyfyngu datblygiad medrau ysgrifennu'r disgyblion ar draws y Cwricwlwm. Collir cyfleoedd i ymestyn disgyblion uwch ei gallu drwy dasgau unffurf i flynyddoedd cyfan.

Rhoddir sylw da i fedrau meddwl yng nghyfnod allweddol 2. Trwy gynllunio bwriadus, llwyddir i sicrhau fod medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth yn datblygu'n briodol ar draws y Cwricwlwm.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn cael lle blaenllaw yng nghynlluniau'r ysgol gydag ymweliadau lleol gwerthfawr yn ysgogi'r dysgu. Defnyddia'r ysgol docynnau iaith yn llwyddiannus i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r staff yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd i hyrwyddo'r diwylliant Cymreig. Mae'r ymrwymiad i weithgareddau'r Urdd yn enghraifft dda o hyn.

Mae'r gwaith thematig yn y dosbarthiadau yn cynnig cyfleoedd da i'r plant ddatblygu ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn ei ddefnyddio i gynllunio'n fwriadus. Mae'r ddarpariaeth yn ysbrydoli ac yn herio llawer o'r disgyblion yn yr ysgol. Mae rheolaeth dosbarth yn gyson gadarn drwy'r ysgol ac mae'r athrawon yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar.

Yn ystod y sesiynau arsylwyd roedd yr addysgu yn gyffredinol dda. Lle mae'r gwaith addysgu ar ei orau mae'r cyflwyniadau'n fachog gyda defnydd effeithiol o adnoddau a'r gwaith wedi'i osod yn herio'r ystod o alluoedd. Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol mae diffyg ffocws i'r gwersi a diffyg sgaffaldiau i gynorthwyo'r dysgu.

Defnyddir yr adnoddau niferus a safonol a geir yn yr ysgol yn briodol i gyfoethogi'r profiadau dysgu.

Darperir adborth llafar cynhaliol a chynigir argymhellion buddiol drwy'r marcio. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion gywiro ac i wella eu gwaith. Ni chynllunnir digon o gyfnodau pwrpasol i ddisgyblion weithredu ar yr adborth a roddir. Darperir cyfleoedd priodol i ddisgyblion hunan asesu ac mae'r defnydd o arddulliau asesu ar gyfer dysgu yn parhau i ddatblygu ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth dda am gynnydd a thargedau disgyblion mewn nosweithiau rhieni a darperir adroddiadau cynhwysfawr diwedd blwyddyn yn adrodd ar gynnydd pob disgybl.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau i gefnogi iechyd a lles y disgyblion yn dda gyda'r ysgol yn dwyn y statws 'Ysgol Iach'. Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd cadw'n heini a bwyta'n iach yn gynhwysfawr ac yn cefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo'n effeithiol ddatblygiad personol disgyblion gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae hyn yn cyfrannu'n fawr tuag at yr ymdeimlad o gymuned sy'n bodoli o fewn yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn elwa o berthynas yr ysgol gydag asiantaethau amrywiol. Llwydda'r ysgol i dargedu'r gefnogaeth yn bwrpasol er mwyn cyfoethogi a datblygu profiadau'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn dda ac yn sicrhau mynediad i'r Cwricwlwm ar gyfer pob disgybl. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion y disgyblion hyn yn gynnar yn y Cyfnod Sylfaen ac yn defnyddio profion safonedig yng nghyfnod allweddol 2 i dracio cynnydd. Adolygir y cynlluniau addysg unigol yn flynyddol gan ymgynghori gyda rhieni/gwarchodwyr ac asiantaethau eraill priodol, ac maent yn ddogfennau cynhwysfawr a gweithredol yn y dosbarthiadau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn gefnogol a rhoddir pwys mawr ar gydweithio a pharchu oedolion a phlant. Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol sy’n hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bob disgybl gan roi sylw arbennig i ymrwymiad y bechgyn. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth.

Mae digon o adnoddau addas sy’n gweddu’n dda i anghenion yr ystod o oedrannau a galluoedd, a gwneir defnydd effeithiol ohonynt. Mae’r amgylchedd ddysgu yn ddeniadol gydag arddangosfeydd ac arteffactau symbylus yn y dosbarthiadau ac mewn ardaloedd cyffredin. Mae’r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu defnyddio’n effeithiol ac yn cael eu cynnal yn dda.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae’r pennaeth, staff a llywodraethwyr yn gweithio’n effeithiol i feithrin ethos ysgol gyfan gynhaliol ble teimla’r disgyblion eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Adlewyrchir hyn yn y safonau uchel o ran lles disgyblion.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau cyfathrebu effeithiol ac ymdeimlad cryf o waith tîm. Mae gan yr ysgol ystod briodol o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy’n cael eu gweithredu’n effeithlon. Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir sy’n cael eu cyflawni’n briodol. Cefnogir datblygiad proffesiynol parhaus y staff trwy system rheoli perfformiad addas sydd yn gosod targedau perthnasol ar gyfer gwella unigolion o fewn cyd-destun yr ysgol.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o ddata perfformiad i adnabod unigolion sydd angen cefnogaeth ac i osod targedau priodol ar eu cyfer. Mae’r drefn wedi ei diweddaru’n ddiweddar i gadw gwell golwg ar gynnydd disgyblion dros gyfnod. Serch hynny nid yw trefniant monitro gan gynnwys ymweliadau dosbarth a chraffu ar waith disgyblion yn canolbwyntio’n effeithiol ar gyflawniad grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn gynyddol ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Cymerwyd camau priodol i gryfhau cyfraniad y corff llywodraethol o ran pennu blaenoriaethau ysgol gyfan. Maent yn dechrau defnyddio data yn fwy effeithiol ond hyd eto nid oes gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth ddigonol o ba mor dda yw safonau ac ansawdd ar draws yr ysgol, yn enwedig o ran tueddiadau data a chymariaethau ag ysgolion tebyg. O ganlyniad, nid ydynt yn gweithredu’n effeithiol fel cyfeillion beirniadol.

Mae’r ysgol yn talu sylw priodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae’r cyfnod sylfaen wedi ei sefydlu yn dda yn yr ysgol ac mae’r ysgol yn weithredol wrth hyrwyddo dwyieithrwydd i holl randdeiliaid yr ysgol. Rhoddir sylw cynyddol i lais y plant ac mae pwyslais da ar les plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae’r trefniadau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn addas. Mae’r broses yn gynhwysol ac mae’r ysgol yn weithredol wrth geisio canfod barn rhieni, disgyblion, ac athrawon. Mae’r ysgol yn dadansoddi canlyniadau ffurfiol ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn ofalus ond nid yw’r broses hunan arfarnu wedi’i selio’n ddigonol ar ddefnyddio arsylwadau gwersi a chraffu gwaith disgyblion.

Mae’r adroddiad hunan arfarnu baratowyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad yn cynnig barn amlwg ar nodweddion da'r ysgol ond nid yw’r adroddiad yn cydnabod yn glir yr hyn sydd angen ei wella.

Mae’r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar wella deilliannau ond nid oes cysylltiad clir ac amlwg rhwng yr adroddiad hunan arfarnu a blaenoriaethau’r cynllun.

Nodir y dulliau gweithredu o dan y gwahanol flaenoriaethau a’r deilliannau disgwyliedig ynghyd a monitro cynnydd. Dynodir hefyd gyfrifoldebau gweithredu a chlustnodir adnoddau ar gyfer cefnogi’r datblygiadau ond nid yw strwythurau ar gyfer monitro cynnydd yn ddigon trylwyr ac nid yw rôl y llywodraethwyr yn y broses wedi datblygu’n ddigonol.

Mae’r cydweithrediad da rhwng staff yn eu galluogi i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Mae’r ysgol yn gweithio’n briodol i ehangu ei hymrwymiad i rwydweithiau proffesiynol yn enwedig gydag ysgolion o fewn y dalgylch a’r ysgol uwchradd leol. Enghraifft dda o hyn yw'r gwelliant yn natblygiad medrau meddwl llawer o’r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy’n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Ceir partneriaeth gref iawn gyda rhieni a’r gymuned leol. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella’r ddarpariaeth addysgol.

Mae’r cydweithio da gyda chylch meithrin a leolir ar y safle yn helpu i baratoi’r plant yn dda ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae partneriaeth dda gydag ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol fel y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i gwrdd ag anghenion penodol unigolion pan fo angen. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad y disgyblion hynny.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth strategol dda gydag ysgolion y dalgylch a’r ysgol uwchradd leol. Mae’r trefniadau hyn yn effeithiol, er enghraifft, i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol ac i sicrhau trosglwyddo esmwyth i’r ysgol uwchradd.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â’i gwaith yn effeithiol. Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn gweithio’n dda gyda’i gilydd fel tîm ac mae cyfleoedd priodol iddynt ddatblygu eu sgiliau proffesiynol.

Mae gan yr ysgol ystod dda o adnoddau priodol. Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr, yn monitro’r gyllideb yn briodol. Maent yn rheoli’r cyflenwad da o adnoddau sydd ar gael ar gyfer holl anghenion yr ysgol yn effeithiol gan sicrhau y gwneir defnydd da ohonynt. Hefyd mae adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu rheoli a’u cadw’n dda.

Yn gyffredinol, o ystyried deilliannau’r disgyblion, ansawdd yr addysgu, gofal a chyfarwyddyd, mae’r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn dangos bod cyflawniad llawer o ddisgyblion saith oed yn cymharu'n dda â disgyblion mewn ysgolion tebyg.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer plant saith oed) yn amrywio. Yn y Gymraeg, mae perfformiad yr ysgol yn gyson ymhlith y 50% uchaf o ysgolion sy'n debyg o ran niferoedd prydau ysgol am ddim ac ymhlith y 25% uchaf yn y ddwy flynedd diwethaf. Nid yw perfformiad yr ysgol mewn mathemateg a gwyddoniaeth cystal ag yn tueddu i fod ymhlith y 50% isaf.

Yn 2011 cyflawnodd pob plentyn y lefel disgwyliedig yn y Gymraeg. Ym mathemateg a gwyddoniaeth roedd perfformiad yr ysgol yn is na chyfartaledd Cymru a gyda'r isaf yn y teulu.

Roedd nifer y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel 3 uwch yn y Gymraeg yn uwch na chyfartaledd Cymru ond yn is nag ysgolion y teulu. Ym mathemateg a gwyddoniaeth roedd y nifer yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru ag ysgolion y teulu. Yn gyffredinol, dros y pedair blynedd diwethaf mae'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch yn y Gymraeg yn cymharu'n dda gyda chyfartaledd Cymru ag ysgolion y teulu. Bu'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch ym mathemateg a gwyddoniaeth yn is nag ysgolion y teulu a chyfartaledd Cymru dros y tair blynedd ddiwethaf.

Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Nid oes patrwm arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn ar y lefel disgwyliedig ond mae mwy o ferched wedi cyflawni'r lefel uwch yn y Gymraeg yn y ddwy flynedd ddiwethaf..

Yn gyffredinol, mae canlyniadau disgyblion unarddeg oed ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn is na rhai disgyblion mewn ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru. Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion unarddeg mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd), wedi bod yn is na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru.

Yn 2011 cyflawnodd 75% o'r disgyblion y lefel disgwyliedig, sef lefel 4, ym mhob un o'r pedwar pwnc craidd. Mae hyn yn is na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymry. Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf ym mhob pwnc

Mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf mae perfformiad yr ysgol yn erbyn y dangosydd pwnc craidd wedi bod ymhlith y 50% isaf o ysgolion tebyg o safbwynt niferoedd plant cinio am ddim. Yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg bu yn y 25% isaf mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Yn 2011 mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (lefel 5 neu'n uwch) gyda'r isaf yn y teulu ym mhob pwnc craidd. Yn gyffredinol bu'r ganran sy'n cyflawni'r lefel uwch yn is na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn ym mhob un o'r pedwar pwnc yn gyson. Mae'r gwahaniaeth hwn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau teulu a chenedlaethol yn 2011.

Mae craffu ar waith disgyblion a thystiolaeth o arsylwadau ystafell ddosbarth yn cefnogi'r barnau hyn yn llawn.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni/gofalwyr Nifer o ymatebion: 15**

***Mae bron bob un rhiant/gofalwr yn cytuno neu gytuno'n gryf fod yr ysgol yn:***

- cael ei rhedeg yn dda;
- darparu amrywiaeth dda o weithgareddau; a
- helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.

***Mae bron bob un rhiant/gofalwr yn cytuno neu gytuno'n gryf fod eu plentyn yn:***

- hoffi'r ysgol;
- cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol;
- gwneud cynnydd da;
- cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corf yn rheolaidd;
- ddiogel yn yr ysgol; a
- cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

***Mae bron bob un rhiant/gofalwr yn cytuno neu gytuno'n gryf fod:***

- yr addysgu'n dda;
- y disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau; a bod
- staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.

***Mae bron bob un rhiant/gofalwr yn cytuno neu gytuno'n gryf:***

- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

***Mae rhan fwyaf yn cytuno;***

- fod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd ei phlentyn;
- fod yr ysgol yn rhoi cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol; a
- eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio a chwynion.

**Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion Nifer o ymatebion: 48**

***Mae pob disgybl yn cytuno fod:***

- yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- yr ysgol yn rhoi llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith;
- ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith; a bod
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

***Mae pob disgybl yn cytuno eu bod yn:***

- gwneud yn dda yn yr ysgol;
- gwybod pwy i siarad ag ef/hi os yw’n poeni neu ofidio, neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd;
- dysgu sut i aros yn iach; a
- theimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

**Roedd naw disgybl** yn teimlo nad oedd plant eraill yn ymddwyn yn dda ac o'r herwydd roedd hyn yn effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mervyn Lloyd Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Goronwy Morris | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Owain Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Owen | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.